Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ganolfan Addysg Athrawon De Orllewin Cymru

## Dyddiadau'r arolygiad: Mai 2012

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag adran 18c Deddf Addysg 1994 (yr ychwanegwyd ato gan baragraff 13 Atodlen 14 Deddf Addysg 2005).


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**



**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Lansiwyd Canolfan Addysg Athrawon De Orllewin Cymru yn ffurfiol yn 2011. Mae'n un o dair canolfan hyfforddiant cychwynnol i athrawon yng Nghymru. Mae'n cynnwys darpariaeth addysg athrawon ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Fetropolitan Abertawe. Prifysgol Y Drindod Dewi Sant yw prif sefydliad y bartneriaeth. Penodwyd pennaeth amser llawn y ganolfan yn Ebrill 2011.

Mae cwrs Addysg Gynradd gyda SAC wedi'i leoli ym Mhrifysgol Y Drindod Dewi Sant ar Gampws Caerfyrddin. Mae'r holl raglenni ôl-raddedig wedi'u lleoli yn Abertawe ar Gampws Townhill.

Mae Canolfan De Orllewin Cymru yn cynnig y rhaglenni hyfforddiant i athrawon canlynol:

- BA mewn Addysg Gynradd gyda SAC;
- TAR Cynradd;
- TAR Uwchradd; a
- Rhaglen Hyfforddiant Athrawon i Raddedigion

Mae'r rhaglen BA yn para am dair blynedd, a'r ddwy raglen ôl-raddedig am flwyddyn. Ym mhob cwrs ar wahân i'r cwrs TAR Uwchradd, cyfrwng y cyfarwyddyd yw naill ai Cymraeg neu Saesneg, yn dibynnu ar ddewis yr hyfforddeion. Ar y rhaglen TAR Uwchradd, gall hyfforddeion ddewis dilyn elfennau o'r cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae darpariaeth hefyd ar gyfer hyfforddeion sy'n dymuno dysgu Cymraeg ac addysgu Cymraeg fel ail iaith mewn ysgolion cynradd.

Mae 319 o hyfforddeion yn dilyn y rhaglen BA Cynradd ar hyn o bryd (mae 116 ohonynt yn dilyn y cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg). Mae 153 o hyfforddeion yn dilyn y rhaglen TAR Cynradd (mae 27 ohonynt wedi'u cofrestru fel hyfforddeion cyfrwng Cymraeg) ac mae 314 o hyfforddeion yn dilyn y rhaglen TAR Uwchradd (mae 20 ohonynt yn dilyn y cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg).

Mae ysgolion partneriaeth cynradd wedi'u lleoli ar hyd a lled ardal eang o Dde Cymru o Aberdaugleddau yn y gorllewin i Gaerdydd yn y dwyrain. Mae ysgolion partneriaeth uwchradd wedi'u lleoli ar hyd a lled De Cymru gyfan o Abergwaun yn y gorllewin i'r Fenni yn y dwyrain.

Mae'r holl gyrsiau'n rhwym wrth ofynion Cylchlythyr 017/2009 Llywodraeth Cynulliad Cymru.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y darparwr | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r darparwr | Da |

### Perfformiad presennol

Mae'r nodweddion da yn y ganolfan yn cynnwys:

- y cynnydd da a wna hyfforddeion tuag at gyflawni'r safonau ar gyfer Statws Athro Cymwys;
- yr amrywiaeth eang o brofiadau dysgu heriol ac ysgogol a ddarperir;
- ansawdd uchel yr hyfforddiant ar y rhaglen i israddedigion; a'r
- modelau rôl da ar gyfer hyfforddeion a ddarperir gan lawer o diwtoriaid.

Fodd bynnag, bernir bod perfformiad presennol yn ddigonol oherwydd:

- nid yw lleiafrif o hyfforddeion yn meddu ar fedrau llythrennedd sy'n ddigon da;
- nid yw lleiafrif o hyfforddeion yn datblygu eu medrau cynllunio a myfyriol yn ddigon da;
- mae ansawdd yr hyfforddiant yn rhy amrywiol ar draws rhaglenni; ac
- nid yw'r asesu'n nodi diffygion ym medrau hyfforddeion bob amser.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon yn dda oherwydd:

- mae uwch arweinwyr wedi gwneud cynnydd da iawn wrth fodloni'r gofyniad cenedlaethol i greu canolfan hyfforddiant cychwynnol i athrawon. Maent wedi rheoli newid yn effeithiol ac wedi darparu cyfeiriad strategol cryf;
- mae gan uwch arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer datblygu'r ganolfan;
- mae cysylltiadau clir rhwng y cynlluniau strategol a gweithredol ar gyfer hyfforddiant cychwynnol i athrawon a chynlluniau sefydliadol ar gyfer y prifysgolion; ac
- mae cynllunio datblygiad y ganolfan wedi'i seilio ar olwg gywir ar ei chryfderau a'i meysydd i'w datblygu.

## Argymhellion

Er mwyn gwneud cynnydd, mae angen i'r ganolfan:

A1 wella medrau llythrennedd personol hyfforddeion a'u gallu i gymhwyso'r medrau hyn mewn cyd-destun addysgu;

A2 gwella medrau cynllunio a myfyrio hyfforddeion;

A3 gwella gwybodaeth a dealltwriaeth hyfforddeion o'r iaith Gymraeg a'r Cwricwlwm Cymreig;

A4 rhoi gweithdrefnau asesu ar waith i sicrhau bod tiwtoriaid a mentoriaid yn barnu safonau hyfforddeion yn gywir;

A5 gwella cysondeb hyfforddiant ar draws yr holl raglenni;

A6 sicrhau bod tiwtoriaid yn diweddaru eu gwybodaeth am arfer bresennol ysgolion; a

A7 sicrhau bod arweinwyr canol yn monitro safonau, hyfforddiant a rhaglenni i sicrhau gwelliant yn brydlon ac yn effeithlon.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y ganolfan yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd cynnydd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion yn cael ei fonitro gan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae bron pob un o'r hyfforddeion yn gwneud cynnydd da tuag at fodloni'r safonau ar gyfer statws athro cymwys.

Mae hyfforddeion yn meddu ar wybodaeth dda am y pynciau y maent yn hyfforddi i'w haddysgu. Maent yn deall gofynion rhaglenni astudio'r Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant yn y Cyfnod Sylfaen, ac maent yn cyfeirio at y rhain yn dda yn eu cynlluniau gwersi a'u gwaith ysgrifenedig.

Yn eu profiadau ysgol, mae mwyafrif o hyfforddeion yn defnyddio ystod eang o strategaethau addysgu effeithiol i ennyn diddordeb disgyblion yn eu dysgu yn llwyddiannus ac maent yn defnyddio cyflymder da ac amrywiol ar gyfer gweithgareddau. Mae'r rhan fwyaf o hyfforddeion yn creu adnoddau diddorol a dychmygus i ysgogi meddwl disgyblion. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o hyfforddeion ar raglenni cynradd a rhai hyfforddeion ar raglenni uwchradd yn gosod tasgau digon diddorol neu heriol i ddisgyblion, ac mae gwersi'n symud yn rhy araf.

Mae llawer o hyfforddeion yn trefnu eu dosbarthiadau ac yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda. Maent yn gweithio'n effeithiol gydag oedolion eraill yn yr ystafell ddosbarth i gefnogi dysgu'r disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o hyfforddeion yn cynllunio gwersi'n fanwl ac yn cyfeirio'n dda at ofynion priodol y cwricwlwm. Mae llawer o hyfforddeion yn trefnu disgyblion ac adnoddau'n dda, ac mae rhai ohonynt yn trefnu gweithgareddau'n fedrus i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion. At ei gilydd, mae hyfforddeion yn rhoi sylw manwl i ddatblygiad medrau disgyblion. Yn benodol, mae llawer o hyfforddeion mewn pynciau uwchradd fel hanes, Addysg Grefyddol a daearyddiaeth yn ymwybodol o'r angen i gynllunio i ddatblygu llythrennedd disgyblion ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, ar draws yr holl raglenni, nid yw lleiafrif o hyfforddeion yn cynllunio gwersi gyda deilliannau dysgu clir a phenodol, nac yn cynllunio tasgau sy'n bodloni'r dysgu a fwriedir ar gyfer pob disgybl.

Mae llawer o hyfforddeion yn defnyddio ystod dda o strategaethau i asesu dysgu'r disgyblion. Gwnânt ddefnydd dychmygus o dechnegau asesu ar gyfer dysgu, ac maent yn rhoi cyfleoedd i'w disgyblion fyfyrio ar eu dysgu eu hunain. Mae mwyafrif o hyfforddeion yn monitro gwaith disgyblion yn effeithiol yn yr ystafell ddosbarth, ac yn olrhain cynnydd disgyblion yn briodol. Mae hyfforddeion mewn rhai meysydd pwnc uwchradd, fel astudiaethau busnes, yn meddu ar ddealltwriaeth dda iawn o ofynion arholiadau. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, gan nad yw hyfforddeion yn glir am y deilliannau dysgu a fwriedir ar gyfer disgyblion, nid ydynt yn asesu cynnydd disgyblion yn llwyddiannus nac yn myfyrio'n llawn ar effeithiolrwydd eu haddysgu.

Mae hyfforddeion yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'r Safonau Athro Cymwys. Mae llawer o hyfforddeion yn monitro eu cynnydd eu hunain yn erbyn y safonau yn effeithiol.

Mae gan bron bob un o'r hyfforddeion ffeiliau trefnus, ac maent yn gydwybodol wrth gwblhau eu dogfennaeth. Mae'r rhan fwyaf o hyfforddeion yn gwneud defnydd da o'r targedau a osodir ar eu cyfer gan eu mentoriaid a'u tiwtoriaid, ac maent fel arfer yn cynllunio i fynd i'r afael â'r rhain yn brydlon.

Mae rhai hyfforddeion yn meddu ar fedrau myfyriol da iawn, ac maent yn gwneud sylwadau craff am eu cynnydd, a chynnydd eu disgyblion. Mae tua hanner yr hyfforddeion yn myfyrio'n onest ar eu cynnydd eu hunain ac yn nodi eu cryfderau eu hunain a'u meysydd i'w datblygu yn gywir. Gallant awgrymu strategaethau i wella eu haddysgu. Fodd bynnag, nid yw rhai hyfforddeion yn dadansoddi eu haddysgu eu hunain yn ddigon effeithiol, ac nid yw lleiafrif ohonynt yn canolbwyntio'n ddigon da ar wella dysgu'r disgyblion.

Yn eu hastudiaethau prifysgol, mae llawer o hyfforddeion yn dangos dealltwriaeth dda o'r cyswllt rhwng theori addysg ac arfer addysgu. Mae hyfforddeion y flwyddyn gyntaf ar y rhaglen gynradd i israddedigion yn defnyddio ystod ddefnyddiol o ddulliau ymchwil i ddatblygu eu medrau beirniadol yn effeithiol. Fodd bynnag, yn eu haseiniadau ysgrifenedig, nid yw lleiafrif o hyfforddeion ar raglenni ôl-raddedig yn defnyddio ystod ddigon eang o destunau i bennu eu dadleuon neu lunio casgliadau dilys. Nid ydynt yn cyfeirio digon at addysg yng Nghymru ac i ddiweddaru deunyddiau i gefnogi eu syniadau.

Mae'r rhan fwyaf o hyfforddeion yn meddu ar fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) da iawn, ac maent yn eu defnyddio ar gyfer amrywiaeth o addysgu a dysgu. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o hyfforddeion yn annog disgyblion i ddefnyddio TGCh yn eu dysgu eu hunain yn ddigon aml.

Mae rhai hyfforddeion yn darparu modelau iaith da iawn ar gyfer y disgyblion y maent yn eu haddysgu. Maent yn defnyddio termau manwl gywir yn eu haddysgu, ac yn ymestyn geirfa disgyblion yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o hyfforddeion yn meddu ar fedrau llythrennedd digon cadarn. Maent yn gwneud camgymeriadau atalnodi a sillafu yn eu gwaith ysgrifenedig ac yn yr ystafell ddosbarth, ac nid yw iaith lafar ychydig iawn ohonynt yn gywir.

Mae hyfforddeion yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o brosesau a gweithdrefnau diogelu.

Mae llawer o hyfforddeion cynradd, yn enwedig ar y rhaglen i israddedigion, yn gwneud defnydd priodol o'r iaith Gymraeg yn eu haddysgu. Mae rhai ohonynt yn defnyddio'r Gymraeg yn dda iawn i roi cyfarwyddyd i ddisgyblion a chynyddu geirfa disgyblion. Fodd bynnag, anaml y mae rhai hyfforddeion cynradd, sy'n addysgu Cymraeg fel ail iaith, yn gofyn i ddisgyblion ymateb yn Gymraeg, ac nid ydynt yn herio disgyblion yn ddigon i ymarfer eu holl fedrau Cymraeg mewn gwersi.

Mae hyfforddeion sy'n addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ar y rhaglen gynradd i raddedigion yn meddu ar fedrau Cymraeg da, ac maent yn fodelau iaith da ar gyfer disgyblion.

Nid yw rhai hyfforddeion ar y rhaglen i israddedigion sy'n hyfforddi i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a rhai hyfforddeion ar y rhaglen Gymraeg ail iaith uwchradd i

raddedigion yn fodelau iaith da i'w disgyblion. Maent yn gwneud camgymeriadau neu wallau gramadegol wrth dreiglo yn eu gwaith ysgrifenedig, yn eu cynllunio ac yn eu gwaith yn yr ystafell ddosbarth.

Yn y brifysgol, mae llawer o hyfforddeion yn dangos dealltwriaeth gadarn o'r Cwricwlwm Cymreig. Fodd bynnag, dim ond rhai hyfforddeion sy'n cynllunio'n effeithiol ar gyfer Y Cwricwlwm Cymreig yn eu profiadau ysgol.

Yn 2009-2010, ar y rhaglen i israddedigion, roedd y cymwysterau yr oedd hyfforddeion yn meddu arnynt wrth ddechrau yn is na'r cyfartaledd ar gyfer hyfforddeion ledled Cymru. Yn 2009-2010, roedd 54% o hyfforddeion a oedd yn dechrau ar y rhaglen gynradd i raddedigion yn meddu ar radd dda (gradd dosbarth cyntaf neu ail ddosbarth uchaf). Roedd hyn ychydig islaw'r ffigur cyffredinol ar gyfer Cymru, sef 55%. Roedd pum deg tri y cant o hyfforddeion ar y rhaglen uwchradd i raddedigion yn meddu ar radd dda wrth ddechrau, sydd ychydig islaw'r ffigur cyffredinol ar gyfer Cymru, sef 54%.

Llwyddodd 93% o hyfforddeion cynradd israddedig i ennill statws athro cymwys yn 2009-2010. Mae hyn islaw'r ffigur cyffredinol ar gyfer Cymru, sef 98%. Llwyddodd 94% o hyfforddeion cynradd ôl-raddedig i ennill SAC, sydd uwchlaw'r ffigur cyffredinol ar gyfer Cymru, sef 91%. Llwyddodd 85% o hyfforddeion uwchradd ôl-raddedig i ennill SAC yn 2009-2010. Mae hyn ychydig islaw'r ffigur cyffredinol ar gyfer Cymru, sef 87%.

Yn yr ystadegau diweddaraf sydd ar gael, dangosir bod 55% o hyfforddeion cynradd israddedig wedi cael swyddi addysgu yng Nghymru yn 2009-2010. Mae hyn ychydig uwchlaw ffigur cyffredinol Cymru, sef 53%. Llwyddodd 62% o hyfforddeion cynradd ôl-raddedig i gael swyddi addysgu yng Nghymru yn 2009-2010, sydd ychydig uwchlaw ffigur cyffredinol Cymru, sef 60%. Llwyddodd 60% o hyfforddeion uwchradd ôl-raddedig i gael swyddi addysgu yng Nghymru yn 2009-2010. Mae hyn uwchlaw ffigur cyffredinol Cymru, sef 52%.

### Lles: Da

Mae bron yr holl hyfforddeion israddedig a llawer o hyfforddeion ôl-raddedig yn dangos agweddau cadarnhaol at gadw'n iach a diogel. Mae gan y rhan fwyaf o hyfforddeion ymwybyddiaeth dda o faterion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch mewn addysgu. Mae hyfforddeion yn deall y gofynion ar gyfer gweithdrefnau diogelu yn llawn, ac maent yn hyderus wrth gymhwyso'r gweithdrefnau hyn yn eu profiadau ysgol.

Mae hyfforddeion yn dangos nodweddion proffesiynol da ac yn adeiladu perthnasoedd gweithio pwrpasol a chadarnhaol gyda'u cymheiriaid, gyda disgyblion, a gyda staff ysgolion a'r prifysgolion. Yn eu hastudiaethau prifysgol, mae'r rhan fwyaf o hyfforddeion yn dangos lefelau uchel o gymhelliant a diddordeb. Maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig, yn cyfrannu'n dda iawn at drafodaethau ac yn cynorthwyo'i gilydd yn eu dysgu.

Mae'r holl hyfforddeion yn cydnabod pwysigrwydd datblygu eu medrau eu hunain, ac mae'r rhan fwyaf o hyfforddeion yn cymryd rhan yng nghyd-destun ehangach bywyd

ysgol, er enghraifft, trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol. Maent yn mynychu ystod o weithgareddau datblygu yn yr ysgol i ddatblygu eu gwybodaeth ehangach am ysgolion ac i gael dealltwriaeth dda o'r cwricwlwm.

Mae presenoldeb mewn sesiynau prifysgol ac ar brofiad ysgol yn dda. Mae'r rhan fwyaf o hyfforddeion yn brydlon ac yn cymryd eu cyfrifoldebau proffesiynol o ddifrif.

Mae hyfforddeion yn ymateb yn dda i gyfleoedd iddynt gyfrannu at arfarnu a datblygu rhaglenni. Mae'r Tîm Hunanarfarnu Myfyrwyr yn cyfrannu'n effeithiol at hunanarfarnu yn y ganolfan. Mae'r corff hwn wedi codi materion pwysig am ddysgu a lles, ac mae'n cael effaith gadarnhaol ar brofiadau hyfforddeion. Yn gyffredinol, mae hyfforddeion yn teimlo bod eu safbwyntiau'n cael eu cymryd o ddifrif a bod y ganolfan yn gweithredu yn unol â'u pryderon a'u syniadau.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

At ei gilydd, mae'r rhaglen i israddedigion a'r rhaglenni uwchradd i fyfyrwyr ôl-raddedig yn darparu cydbwysedd da o brofiadau dysgu cynlluniedig. Caiff astudiaethau cwricwlwm a chydrannau astudiaethau proffesiynol y rhaglenni hyn eu hintegreiddio'n dda i gwmpasu pob agwedd ar y Safonau Athro Cymwys yn effeithiol. Mae elfennau'r rhaglenni yn yr ysgol ac yn y brifysgol yn ategu ei gilydd yn dda ar y cyfan. Mae'r holl raglenni'n bodloni gofynion Cylchlythyr 017/2009 Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'r holl raglenni yn y brifysgol yn cynnig amrywiaeth a her. Mae rhai agweddau ar y ddarpariaeth, yn enwedig yn y rhaglen i israddedigion ac mewn rhai pynciau uwchradd, wedi'u cynllunio'n dda iawn i gynnig profiadau dysgu effeithiol i hyfforddeion. Mae cyfleoedd dysgu fel tiwtora cymheiriaid, 'micro-addysgu' a chwarae rôl yn gwella profiadau hyfforddeion yn effeithiol.

Fodd bynnag, mae rhan astudiaethau proffesiynol y rhaglen gynradd i raddedigion yn darparu strwythur llai cydlynus, ac ni chaiff hyfforddeion gyfleoedd i archwilio syniadau'n fanwl neu ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o rai meysydd yn ddigon trylwyr bob amser.

Mae siaradwyr gwadd, yn cynnwys mentoriaid ac ymweliadau â mannau perthnasol o ddiddordeb, yn gwella rhaglenni'n dda. Cynigir ystod dda o gyfleoedd cyfoethogi i hyfforddeion.

Ar y rhaglen gynradd i israddedigion, mae'r defnydd a wneir o 'ddysgu yn seiliedig ar broblem' yn cael effaith gadarnhaol gref ar gynyddu cymhelliant hyfforddeion a'u hagweddau at astudio. Ochr yn ochr â'r defnydd o gyfleusterau arsylwi arbenigol mewn ysgolion partneriaeth, mae'r dulliau newydd hyn yn datblygu medrau myfyriol yr hyfforddeion hyn yn dda.

Mae'r brifysgol yn mynd ati'n rheolaidd i archwilio medrau llythrennedd a rhifedd a medrau pwnc a gwybodaeth yr hyfforddeion mewn modd effeithiol. Mae rhaglenni cynradd yn rhoi sylw da i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd hyfforddeion, a'r

rhan bwysig sydd ganddynt yn nysgu'r plant. Fodd bynnag, mae'r graddau yr eir i'r afael â llythrennedd, rhifedd a TGCh yn y rhaglen uwchradd yn amrywio gormod rhwng pynciau. Mae darpariaeth hynod effeithiol i wella llythrennedd hyfforddeion ar y rhaglen gynradd i ôl-raddedigion, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau hyfforddeion. Fodd bynnag, nid yw'r dulliau hyn wedi'u datblygu cystal ar draws yr holl raglenni.

At ei gilydd, mae rhaglenni'n rhoi sylw addas i ystod eang o faterion trawsbynciol, yn cynnwys Y Cwricwlwm Cymreig ac addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

### Addysgu: Digonol

Yn y sesiynau yn y brifysgol, mae llawer o diwtoriaid yn frwdfrydig ac mae ganddynt wybodaeth arbenigol dda iawn. Maent yn fodelau rôl effeithiol ar gyfer hyfforddeion, ac yn dangos arfer dda yn yr ystafell ddosbarth. Maent yn cynllunio sesiynau sydd â nodau diffiniedig ac mae ganddynt ddisgwyliadau cyson uchel o hyfforddeion. Mae llawer o diwtoriaid yn defnyddio ystod eang o strategaethau addysgu sy'n rhoi cyfleoedd i hyfforddeion archwilio'u syniadau eu hunain. Mae rhai tiwtoriaid ar draws yr holl raglenni yn defnyddio'u harbenigedd mewn modd medrus iawn i gynnig profiadau dysgu ysbrydoledig ac ysgogol. Mae'r holl addysgu ar y rhaglen i israddedigion yn dda neu'n well.

Mewn rhai sesiynau yn y brifysgol, nid yw'r hyfforddiant yn heriol, ac nid yw'n gweddu i anghenion yr hyfforddeion, cyfyngedig yw'r amrywiaeth o weithgareddau, ac mae'r sesiwn yn symud yn rhy araf. Nid yw rhai tiwtoriaid yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth ddigon da o arfer bresennol ysgolion.

Yn gyffredinol, mae strategaethau i wella medrau meddwl beirniadol hyfforddeion yn rhy amrywiol ar draws rhaglenni a meysydd pwnc uwchradd. Mae'r dulliau o ymdrin â rhai o feysydd y safonau, yn enwedig ar gyfer mynd i'r afael â chynllunio gwersi, yn amrywio gormod ar draws rhaglenni a meysydd pwnc.

Mae tiwtoriaid ar y rhaglen i israddedigion yn rhoi cyfleoedd da iawn i hyfforddeion ddatblygu eu dealltwriaeth o'r Cwricwlwm Cymreig a sut i gymhwyso'r wybodaeth hon yn eu haddysgu. Fodd bynnag, mae'r arfer hon yn fwy amrywiol ar y rhaglen gynradd i raddedigion.

Mewn rhai pynciau uwchradd fel celf, ieithoedd tramor modern a Chymraeg, mae tiwtoriaid yn rhoi sylw da i ddatblygu dealltwriaeth hyfforddeion o'r Cwricwlwm Cymreig a'r iaith Gymraeg. Fodd bynnag, yn gyffredinol, cyfyngedig yw'r ymdriniaeth â'r Cwricwlwm Cymreig a'r Gymraeg ar y rhaglen uwchradd.

Yn yr hyfforddiant mewn ysgolion, mae bron pob mentor yn sefydlu perthynas waith dda gyda hyfforddeion. Mae'r rhan fwyaf o fentoriaid yn defnyddio'u profiad yn dda i gynnig cyngor ac arweiniad da i hyfforddeion. Yn yr hyfforddiant yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid a mentoriaid yn rhoi adborth gwerthfawr i hyfforddeion ar eu cynnydd. Mae systemau da a manwl a meini prawf clir i asesu hyfforddeion yn erbyn y Safonau Athro Cymwys. Mae mwyafrif o fentoriaid yn gwneud arfarniadau clir a chraff o wersi hyfforddeion, sy'n nodi cryfderau a gwendidau hyfforddeion a'u targedau i wella. Mae llawer o fentoriaid yn holi'n fedrus i annog hyfforddeion i fyfyrio ar eu harfer a rhoi cyngor priodol ar y camau dysgu nesaf.

Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, mae'r adborth llafar i hyfforddeion yn rhy hael, ac nid yw rhai mentoriaid yn nodi camgymeriadau hyfforddeion yn eu medrau a'u gwybodaeth bynciol. Mae gormod o diwtoriaid a mentoriaid nad ydynt yn monitro ffeiliau hyfforddeion yn ddigon gofalus.

Mae tiwtoriaid yn marcio aseiniadau hyfforddeion mewn modd amserol, ac mae mwyafrif ohonynt yn gwneud defnydd da o feini prawf asesu. Mae'r rhan fwyaf o'r marcio yn gefnogol ac yn galonogol. Yn yr enghreifftiau gorau, mae'r marcio yn rhoi adborth manwl a chywir i hyfforddeion ac yn esbonio'n benodol sut gallai hyfforddeion wella eu gwaith. Fodd bynnag, mae'r dull o asesu gwaith ysgrifenedig hyfforddeion yn amrywio gormod rhwng tiwtoriaid. Nid yw lleiafrif o diwtoriaid yn nodi camgymeriadau nac yn rhoi adborth clir i hyfforddeion. Caiff gormod o aseiniadau eu marcio'n rhy hael, ac nid yw'r graddau a roddir yn adlewyrchu'r meini prawf marcio yn gywir.

Caiff yr holl fyfyrwyr eu sgrinio ar gyfer lefelau llythrennedd a rhifedd wrth ddechrau, gyda chymorth targedig ar gyfer llythrennedd mewn Cymraeg, Saesneg a rhifedd i'r rhai sydd ei angen. Fodd bynnag, nid yw hyfforddeion sydd angen cymorth bob amser yn cymryd rhan yn y rhaglenni hyn, ac nid yw'r ganolfan yn monitro cynnydd yr hyfforddeion hyn yn ddigon da.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Caiff y cymorth i hyfforddeion ei ategu gan bolisïau clir ar draws y brifysgol. Caiff hyfforddeion gyfle da i fanteisio ar wasanaethau cymorth, sy'n cynnig arweiniad, cymorth a chwnsela effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o hyfforddeion yn fodlon â'r cymorth a gânt.

At ei gilydd, mae hyfforddeion yn rhoi llawer o werth i'r cymorth unigol a gânt gan diwtoriaid a mentoriaid. Fodd bynnag, i rai hyfforddeion, mae ansawdd y cymorth yn yr ysgol yn rhy ddibynnol ar ddull y mentor unigol. O ganlyniad, nid yw ychydig iawn o hyfforddeion yn cael y cymorth personol sydd ei angen arnynt tra byddant yn yr ysgol.

Mae'r ganolfan yn rhoi ystyriaeth dda i anghenion personol hyfforddeion wrth leoli hyfforddeion mewn ysgol. Mae prosesau priodol i baratoi hyfforddeion ar gyfer eu lleoliadau ysgol sy'n eu helpu i ymgynefino'n dda yn yr agweddau ar eu rhaglenni yn yr ysgol.

Mae cyfleoedd sydd wedi cael eu cyhoeddi a'u rhaglennu'n glir i fyfyrwyr rannu eu profiadau, yn cynnwys anawsterau, yn ystod eu lleoliadau ysgol. Caiff hyfforddeion eu hannog i gyfathrebu'n rheolaidd tra byddant ar leoliadau ysgol trwy'r amgylchedd dysgu rhithwir.

Mae systemau da i fonitro presenoldeb myfyrwyr yn y brifysgol a'r ysgol, gyda meini prawf clir ar gyfer presenoldeb, a gweithdrefnau ar gyfer mynd i'r afael â phresenoldeb gwael.

Mae gweithdrefnau cynhwysfawr i gefnogi hyfforddeion ag anghenion dysgu ychwanegol, trwy wasanaethau cymorth generig yn y ddwy brifysgol, ac yn fwy penodol trwy'r cyrsiau hyfforddiant cychwynnol i athrawon.

Mae gan y ganolfan drefniadau recriwtio, disgyblu ac adrodd effeithiol i sicrhau addasrwydd myfyrwyr ar gyfer ymgymryd â hyfforddiant cychwynnol i athrawon.

Mae gan y ganolfan bolisi a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ganolfan yn cynnig amgylchedd dysgu diogel a hygyrch ar gyfer yr holl hyfforddeion. Mae ystafelloedd addysgu yn darparu amgylchedd dysgu cadarnhaol. Nodwedd arbennig o dda yw nifer yr ystafelloedd addysgu dynodedig sy'n benodol i bwnc yn y ddwy brifysgol. Mae hyfforddeion yn gwerthfawrogi eu rôl mewn datblygu adnoddau gweledol a bod yn gyfrifol am yr ystafelloedd addysgu hyn, gan sicrhau eu bod yn lleoedd dysgu bywiog.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae ysgolion partneriaeth yn darparu amgylcheddau effeithiol ar gyfer profiad ysgol hyfforddeion.

Mae ystod eang o adnoddau llyfrgell a TGCh arbenigol y mae hyfforddeion yn elwa'n dda arnynt.

Mae gan y ganolfan amgylchedd dysgu rhithwir effeithiol iawn sy'n cynnwys ystod eang o adnoddau, yn hwyluso cyfathrebu effeithiol rhwng hyfforddwyr, tiwtoriaid a mentoriaid, ac yn annog rhannu arfer dda mewn modd effeithiol.

Mae Canolfan Peniarth yn creu adnoddau Cymraeg a dwyieithog da iawn sy'n cael eu defnyddio gan ysgolion a hyfforddeion. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid oes digon o adnoddau Cymraeg addas i hyfforddeion ar y rhaglen uwchradd.

Mae'r ganolfan yn rhoi sylw priodol i recriwtio hyfforddeion o grwpiau nad oes digon o gynrychiolaeth ohonynt, ac mae ganddi strategaeth farchnata ragweithiol ar gyfer ymgysylltu ag ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, grwpiau ag anableddau, cymunedau lleiafrifoedd ethnig a dysgwyr cyfrwng Cymraeg.

Mae polisïau addas ar waith i gefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac adlewyrchir y gwerthoedd hyn wrth gynllunio rhaglenni.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae uwch arweinwyr prifysgol wedi cydweithio'n effeithiol i fodloni'r gofyniad cenedlaethol i leihau dyblygu rhaglenni hyfforddiant cychwynnol i athrawon a chyflwyno cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg i fodloni angen cenedlaethol a lleol.

Mae pennaeth y ganolfan, ynghyd ag uwch arweinwyr mewn hyfforddiant cychwynnol i athrawon, yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Mae ganddynt weledigaeth glir ar gyfer datblygu'r ganolfan, y maent yn ei rhannu gyda staff. Mae pennaeth y ganolfan yn cyfathrebu'n effeithiol gydag uwch arweinwyr prifysgol i sicrhau cytundebau ar gyfer datblygu'r ganolfan. Maent yn cyfleu disgwyliadau uchel i'r rhai y maent yn eu rheoli, ac yn ysgogi datblygiad y ganolfan yn effeithiol yng nghyd-destun ad-drefnu ehangach prifysgolion.

Mae'r strwythur arwain a rheoli clir yn rhoi ystyriaeth dda i systemau'r ddwy brifysgol. Mae gwerthoedd craidd a rennir yn ategu gwaith y ganolfan ac mae cysylltiadau clir rhwng y cynlluniau strategol a gweithredol ar gyfer hyfforddiant cychwynnol i athrawon a'r cynlluniau sefydliadol ar gyfer y prifysgolion. Mae pennaeth y ganolfan yn rhannu'r cynllun strategol gyda llywodraethwyr a phob un o'r staff, sy'n golygu bod ganddynt ddealltwriaeth glir o'r nodau, yr amcanion a'r dyheadau ar gyfer y ganolfan.

Mae uwch arweinwyr mewn hyfforddiant cychwynnol i athrawon yn defnyddio data'n dda i fonitro cynnydd yn ofalus yn erbyn cynlluniau strategol a gweithredol a chynlluniau rheoli newid. Mae cofnodion cyfarfodydd yn canolbwyntio'n glir ar bwyntiau gweithredu a'u datrys yn gyflym. Mae uwch arweinwyr mewn hyfforddiant cychwynnol i athrawon wedi adolygu rolau a chyfrifoldebau arweinwyr canol yn ddiweddar. Rhoddwyd proses rheoli perfformiad ar waith yn ddiweddar. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i weld effaith y fenter hon ar y ddarpariaeth.

Mae'r ffaith fod tri llywodraethwr prifysgol wedi'u penodi i gysylltu â'r ganolfan yn nodwedd dda. Mae'r arolygwyr cyswllt hyn yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gydag uwch arweinwyr y ganolfan i fonitro'r cynllun strategol. Mae'r llywodraethwyr yn cynnig her i'r ganolfan esbonio gwaith y ganolfan wrth y cyrff llywodraethol. Mae hyn wedi cyfrannu at ddatblygu'r ganolfan yn effeithiol.

### Gwella ansawdd: Digonol

Mae gan y ganolfan system sicrhau ansawdd glir ar waith. Mae bwrdd rheoli'r ganolfan yn mynd ati'n rheolaidd i gasglu a dadansoddi data rhaglenni a safbwyntiau hyfforddeion, tiwtoriaid, arholwyr allanol, ysgolion partneriaeth, penaethiaid ac athrawon sydd newydd gymhwyso. Mae'n gwneud hyn yn effeithiol trwy holiaduron, cyfarfodydd staff a chyfarfodydd mentoriaid, pwyllgor ymgynghorol ac adroddiadau. Fodd bynnag, prin yw'r dystiolaeth uniongyrchol o hyfforddiant yn y brifysgol a chyfyngedig yw'r dadansoddiadau o arsylwadau sesiynau. Nid yw'r broses arsylwi cymheiriaid yn ddigon trylwyr i sicrhau bod arfer orau'n cael ei nodi a'i rhannu ar draws y ganolfan i wella ansawdd. Mae bwrdd rheoli'r ganolfan yn rhoi ystyriaeth dda i gamau blaenoriaeth o adolygiadau rhaglen i ddatblygu adroddiad hunanarfarnu gwybodus a chytbwys. Mae hunanarfarnu'n llywio camau allweddol yn y cynllun strategol. Caiff y camau hyn eu blaenoriaethu'n effeithiol a'u monitro ar gyfer gwelliant.

Yn gyffredinol, mae'r ganolfan yn darparu cyfleoedd da i fodloni anghenion datblygiad proffesiynol unigol tiwtoriaid. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn manteisio ar y rhain, ac maent yn cymryd rhan mewn rhwydweithiau allanol yn ymwneud â'u harfer broffesiynol, er enghraifft trwy brosiectau ymchwil neu gymdeithasau pwnc, ac yn defnyddio gwybodaeth bynciol gyfoes wrth addysgu. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn gweithio gyda thiwtoriaid eraill i arsylwi a rhannu arfer, ac i adolygu marcio ac asesu ei gilydd. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr canol yn gwella ansawdd trwy rannu a monitro arfer orau yn ddigon effeithiol ymhlith cydweithwyr. Mae hyn yn golygu mai profiad hyfforddi amrywiol a gaiff hyfforddeion, yn enwedig ar y rhaglen uwchradd.

Mae'r ganolfan yn rhoi cyfleoedd rheolaidd i fentoriaid ddiweddaru eu medrau a dysgu am ddatblygiadau newydd mewn rhaglenni. Mae'r sesiynau hyfforddi

mentoriaid yn canolbwyntio'n dda ar ofynion cyffredinol ar gyfer y profiad ysgol a materion generig penodol, y mae tiwtoriaid yn eu nodi o ganlyniad i ddadansoddi data ac adroddiadau ar gynnydd hyfforddeion.

Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o fentoriaid yn mynychu'r sesiynau hyn. Mewn llawer o achosion, mae tiwtoriaid yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i fentoriaid nad ydynt yn gallu mynychu cyfarfodydd mentoriaid pan fyddant yn ymweld â hyfforddeion yn yr ysgol, ac mewn llawer o achosion, mae tiwtoriaid yn arsylwi hyfforddeion gyda mentoriaid i safoni barnau. Serch hynny, nid yw rhai mentoriaid yn cael hyfforddiant rheolaidd i safoni cyrhaeddiad yr hyfforddai o ran y safonau athro cymwys gyda'r tiwtor. Mae hyn weithiau'n arwain at anghysondeb wrth asesu perfformiad hyfforddeion.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Ar y cyd â mentoriaid, mae'r ganolfan wedi datblygu egwyddorion trosfwaol clir ar gyfer partneriaeth gydag ysgolion. Mae'r egwyddorion yn cefnogi'r perthnasoedd da rhwng y ganolfan a'i hysgolion mewn modd effeithiol. Mae'r ganolfan a'i hysgolion partneriaeth yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau cenedlaethol wrth ddarparu hyfforddiant.

Mae gan lawer o fentoriaid rôl effeithiol mewn datblygu rhaglenni hyfforddi, dewis hyfforddeion ac fel siaradwyr gwadd ar gyfer testunau penodol mewn hyfforddiant yn y brifysgol. Mae llawlyfrau profiad ysgol a briffiau mentoriaid yn rhoi gwybodaeth glir i fentoriaid am ofynion cyffredinol y rhaglenni profiad ysgol. Mae systemau gweinyddol da i roi gwybodaeth gyfoes i fentoriaid am gynnydd hyfforddeion. Mae swyddfeydd partneriaeth y brifysgol yn ymateb yn effeithlon iawn i fentoriaid, ac mae mentoriaid yn hyderus y gallant siarad â thiwtoriaid yn brydlon pan fydd problemau'n codi. Mae'r system a ddatblygwyd yn ddiweddar ar gyfer mentoriaid cynradd i adrodd ar-lein yn helpu i ddatblygu cydweithio effeithiol ymhellach rhwng ysgolion partneriaeth a'r ganolfan.

Mae'r ganolfan yn gweithio'n agos gyda rhai o'i hysgolion partneriaeth a gyda phrifysgolion eraill yn y Deyrnas Unedig i helpu ysgolion i ddatblygu technegau ymchwil gweithredu effeithiol i ategu ymholiadau am berfformiad ysgolion. Mae gan y ganolfan gysylltiadau da gyda phrosiect addysg rhyngwladol yn Lesotho, ac fe gaiff hyn effaith gadarnhaol ar brofiadau dysgu hyfforddeion.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

At ei gilydd, mae gan diwtoriaid gymwysterau da, a chânt eu defnyddio'n briodol i fodloni anghenion y rhaglenni hyfforddi. Mae tiwtoriaid yn meddu ar wybodaeth bynciol gadarn ar y cyfan. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid yw tiwtoriaid yn meddu ar wybodaeth ddigonol am arfer ysgol bresennol i baratoi hyfforddeion yn effeithiol ar gyfer profiad ysgol.

Mae'r ganolfan yn gwneud defnydd da o staff sy'n medru'r Gymraeg ar y cwrs i israddedigion i wella'r ddarpariaeth ar raglenni ôl-raddedig.

Mae'r ganolfan yn cyfeirio adnoddau'n effeithlon tuag at ei blaenoriaethau strategol. Er enghraifft, neilltuwyd cyllid yn briodol i wella adnoddau dysgu Cymraeg trwy Ganolfan Peniarth ac i ddatblygu darpariaeth yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ganolfan yn rhoi ystyriaeth dda i safbwyntiau hyfforddeion wrth ddyrannu adnoddau, er enghraifft trwy gynyddu ymweliadau gan diwtoriaid. Mae'r ganolfan yn archwilio ei gwariant yn ofalus i gefnogi dysgu hyfforddeion.

Er bod arweinwyr yn rheoli adnoddau'n effeithiol, o ystyried y safonau a gyflawnir gan hyfforddeion, mae gwerth am arian yn ddigonol.

## Atodiad 1

**Materion yn ymwneud â diffyg cydymffurfio**

**Nid oes unrhyw faterion yn ymwneud â diffyg cydymffurfio**

Pan nad yw'r ddarpariaeth, neu agweddau pwysig ar y ddarpariaeth, yn cydymffurfio â'r gofynion ar gyfer HCA neu agweddau eraill ar y meini prawf ar gyfer achredu darparwyr HCA, bydd gweithdrefnau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ar gyfer mynd i'r afael â diffyg cydymffurfio yn cael eu rhoi ar waith. Bydd Estyn yn rhoi gwybod i CCAUC am ei farn o fewn pythefnos o gwblhau'r arolygiad. Bydd yr arolygiad yn cael ei gwblhau ar y diwrnod y mae Estyn yn rhoi'r adborth llafar terfynol i'r darparwr HCA. Bydd Estyn yn gofyn i'r darparwr ddarparu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r holl faterion a nodwyd yn yr arolygiad, yn cynnwys materion yn ymwneud â diffyg cydymffurfio.

## Atodiad 2

**Boddhad dysgwyr**

Cafodd Estyn ymatebion gan 293 o hyfforddeion, a ddewiswyd ar hap ar draws y rhaglenni.

Mae bron pob un o'r hyfforddeion yn credu bod y rhaglen yn eu paratoi'n dda i fodloni'r Safonau ar gyfer Statws Athro Cymwys.

Mae bron yr holl hyfforddeion israddedig, y rhan fwyaf o hyfforddeion uwchradd ôl-raddedig a llawer o hyfforddeion cynradd ôl-raddedig yn credu bod eu rhaglen hyfforddi wedi cael ei chynllunio'n effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o hyfforddeion yn teimlo eu bod yn cael lleoliadau ysgol o ansawdd da, a dywed pob un o'r hyfforddeion eu bod yn cael eu hannog i fyfyrio ar eu cynnydd.

Mae'r holl hyfforddeion israddedig, y rhan fwyaf o hyfforddeion uwchradd ôl-raddedig, a llawer o hyfforddeion cynradd ôl-raddedig yn dweud eu bod yn cael adborth rheolaidd ar eu cynnydd sy'n eu helpu i wella eu medrau.

Dywed bron yr holl hyfforddeion israddedig a'r rhan fwyaf o hyfforddeion ôl-raddedig eu bod yn cael cymorth da yn yr ysgol. Dywed yr holl hyfforddeion fod eu tiwtoriaid yn eu helpu i wneud cynnydd da tuag at gyflawni'r safonau.

Mae bron pob un o'r hyfforddeion yn teimlo'n ddiogel ac yn rhydd oddi wrth aflonyddwch yn y brifysgol ac yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o hyfforddeion israddedig a llawer o hyfforddeion ôl-raddedig yn credu bod y rhaglen hyfforddi wedi gwella eu hagweddau at gadw'n iach a diogel, a'u bod yn datblygu eu gallu i ddelio â sefyllfaoedd o straen yn dda.

Mae bron pob un o'r hyfforddeion yn mwynhau eu rhaglen hyfforddi, a byddent yn argymell y rhaglen i bobl eraill.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Sarah Lewis AEM | Arolygydd Cofnodol |
| Penny Lewis AEM | Arolygydd Tîm |
| Ann Jones AEM | Arolygydd Tîm |
| Gerard Kerslake AEM | Arolygydd Tîm |
| Claire Morgan AEM | Arolygydd Tîm |
| Ceri Jones AEM | Arolygydd Tîm |
| Richard Hawkley AEM | Arolygydd Tîm |
| Sue Morgan AY | Arolygydd Tîm |
| Alan Lowndes | Arolygydd Tîm |
| Phil Bassett | Arolygydd Cymheiriaid |
| Dewi Rowlands | Arolygydd Cymheiriaid |
| Russell Grigg | Enwebai |